

Y CYFANSODDIAD ADRAN 12 CONTRACTAU CYLLID A MATERION CYFREITHIOL

12.1 Rheolaeth Ariannol

Rheolir materion ariannol y Cyngor yn unol â'r rheolau ariannol a amlinellir yn Adran 16 y Cyfansoddiad hwn.

12.2 Contractau

Bydd pob contract a wneir gan y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnol Contractau a amlinellir yn Adran 17 y Cyfansoddiad hwn.

12.3 Achosion Cyfreithiol

12.3.1 Mae'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid wedi'i (h)awdurdodi i gychwyn, amddiffyn, cymryd rhan mewn neu derfynu unrhyw achosion cyfreithiol a chymryd yr holl gamau angenrheidiol yn unrhyw achos pan fo camau o'r fath yn angenrheidiol i weithredu penderfyniadau'r Cyngor neu, yn unrhyw achos, pan fo'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn ystyried bod camau o'r fath yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau'r Cyngor.

12.3.2 Mae gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid bwerau dirprwyedig i awdurdodi Swyddogion i ymddangos yn y llys ar ran y Cyngor.

12.4 Dilysu Dogfennau

12.4.1 Pan fydd unrhyw ddogfen yn angenrheidiol i unrhyw weithdrefn neu achos cyfreithiol ar ran y Cyngor, fe'i llofnodir gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid neu unigolyn arall a awdurdodwyd ganddo ef/ganddi hi, oni bai bod unrhyw ddeddfiad neu fel arall yn awdurdodi neu'n mynnu, neu fod y Cyngor wedi rhoi'r awdurdod gofynnol i ryw unigolyn arall.

12.4.2 Bydd unrhyw gontract sy'n werth mwy na £75,000, y cytunir arno ar ran y Cyngor yn cael ei wneud yn ysgrifenedig. Yn amodol ar y Rheolau Gweithdrefnol Contractau, mae'n rhaid i gontractau o'r fath gael eu llofnodi gan o leiaf ddau o Swyddogion awdurdodedig y Cyngor neu eu gwneud o dan sêl gyffredin y Cyngor a'u tystio gan o leiaf un Swyddog os ydynt yn werth mwy na £500,000.

12.4.3 Yn ogystal ag unrhyw unigolyn arall a allai gael ei awdurdodi trwy benderfyniad gan y Cyngor, y Swyddog Priodol at ddibenion dilysu dogfennau o dan Ddeddfau Llywodraeth Leol fydd:

(a) y Prif Weithredwr;

(b) y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid;

- (c) unrhyw un o Brif Swyddogion y Cyngor sy'n gysylltiedig â'r mater y mae'r ddogfen yn ymwneud ag ef; neu,
- (ch) unrhyw Swyddog a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan y cyfryw Brif Swyddog.

12.5 Sêl Gyffredin y Cyngor

12.5.1 Sêl Gyffredin

- (a) Bydd Sêl Gyffredin y Cyngor yn cael ei chadw mewn man diogel yng ngofal y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid.
- (b) Bydd penderfyniad gan y Cyngor, gan gynnwys penderfyniadau a wneir trwy bwerau dirprwyedig, yn cynrychioli awdurdod digonol i selio unrhyw ddogfen sy'n angenrheidiol i weithredu'r penderfyniad.

12.5.2 Selio a Chwblhau Dogfennau

- (a) Bydd gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yr awdurdod i osod y Sêl Gyffredin a chwblhau o dan y Sêl unrhyw weithred neu ddogfen yn amodol ar iddo ef/hi fod yn bresennol ac yn llofnodwr.
- (b) Bydd gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yr awdurdod i gwblhau unrhyw weithred neu ddogfen nad yw'n ofynnol o dan y gyfraith iddi fod o dan sêl, sy'n angenrheidiol i weithredu penderfyniadau'r Cyngor.
- (c) Gall yr unigolion a enwyd ddirprwyo'r swyddogaeth hon ymhellach.

12.5.3 Cofnod o Selio Dogfennau

Bydd unrhyw gofnod o selio pob gweithred neu ddogfen y mae'r Sêl Gyffredin wedi'i gosod arni yn cael ei wneud gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid a'i rifo'n olynol mewn llyfr sydd i'w ddarparu at y diben hwnnw.